

CALAN MAWRTH
GŴYL DDEWI - GWEDDIAU

Yntred (Entrance Antiphon):

Bydd fy ysbryd i arnat, medd yr Arglwydd,
a gosodaf fy ngeiriau yn dy enau;
a bydd dy aberthau yn dderbyniol ar fy allor.

Colect (Collect):

O Dduw, a gododd Ddewi dy esgob yn nawddsant i Gymru,
yn llawn o ysbryd doethineb, yn huawdl ei air,
yn daer ei weddi ac yn ddyfal ei ofal dros y praidd:
dyro trwy ei eiriolaeth ef i'th Eglwys ffynnu ar y ddaear,
a'th foli a'th anrhydeddu di'n wastadol.

(Duplicate below for use at Book of the Chair)

Wedi'r Cymun (Prayer After Communion):

O Arglwydd,
fel y bu cyfranogi o Gorff a Gwaed dy Fab
yn gynhaliaeth einioes i Ddewi,
bydded felly i ninnau yn lluniaeth ac yn llawenydd ar ein taith,
gan ein cadw yn ffyddlon i'th wirionedd a'th gariad.

MASS PROPERS FOR ST DAVID'S DAY

NB These parallel texts are from the Proper for Wales issued in 1981. They should NOT be used for the celebration of Mass in the English language, as revised texts for St David's Day, without a proper preface, were issued in the revised Roman Missal of 2011.

Entrance Antiphon for Mass (Lk 4:18)

The Spirit of God is upon me; he has anointed me. He sent me to bring the good news to the poor and to heal the broken-hearted.

Collect

O God, who by the virtue of wisdom, the gift of eloquence, and the example of prayer and pastoral zeal, raised the blessed David to be patron of Wales, grant that, by his intercession, your Church may ever prosper and render you joyful praise through our Lord Jesus Christ your Son, who lives and reigns with you and the Holy Spirit, God, for ever and ever.

Prayer After Communion

May the communion we have received, O Lord, unite us in brotherly love and in zeal to proclaim your saving truth. This prayer we make through Christ, Our Lord.

(The Collect refers to St David's part in the Synod of Llandewi Brefi. The Prayer Over the Gifts alludes to the joy with which he is said to have celebrated the Holy Mysteries. The Post-Communion reminds us of his traditional admonition: 'Keep the faith'.)

Gweddi'r Offrwm (Prayer over the Gifts):

Derbyn, Arglwydd,
yr offrwm y mae dy bobl yn ei gyflwyno iti mewn llawenydd;
a thywynned arnom lewych dy wyneb i'n cadarnhau
mewn tangnefedd.

Rhaglith (Preface):

Gwir addas a chyfiawn,
ie, ein dyletswydd a'n hiachawdwriaeth yw
bob amser ac ym mhob lle roddi diolch i ti,
Arglwydd, sanctaidd Dad, hollalluog dragwyddol Dduw:

Dy foli hefyd a'th fendithio a wnawn
wrth gadw gwyl er anrhydedd i'n nawddsant Dewi.
Cysegrodd ef ei fywyd i'th unig-anedig Fab ac i'w deyrnas:
mewn gweddi gyson, ymwreiddiodd yn y ffydd;
o'i ddoethineb raslon, adfywiodd obaith dy bobl;
ac wrth weini ar y tlodion,
rhoddodd inni esiampl arhosol o gariad.

Ninnau, gan hynny, dan ei nawdd ef
ymroddwn i'th wasanaeth
gan lawenhau gyda'r Angylion a holl gwmni'r Saint,
a chyhoeddwn dy ogoniant, gan ddywedyd ag un llais:

Adnod y Cymun (Communion Antiphon):

Pob un a adawodd y cwbl a'm canlyn i,
caiff dderbyn ganwaith cymaint ac etifeddu bywyd tragwyddol.

Wedi'r Cymun (Prayer After Communion):

O Arglwydd,
fel y bu cyfranogi o Gorff a Gwaed dy Fab
yn gynhالياeth einioes i Ddewi,
bydded felly i ninnau yn lluniaeth ac yn llawenydd ar ein taith,
gan ein cadw yn ffyddlon i'th wirionedd a'th gariad.

Prayer Over the Gifts

Lord accept the gifts we bring with joy,
and may the light of your countenance assure us peace,
through our Lord Jesus Christ your Son, who lives and reigns
with you and the Holy Spirit, God, for ever and ever.

Preface of St David

Father, all-powerful and ever-living God,
We do well always and everywhere to give you thanks.
Today we celebrate the feast of our Patron, Saint David,
who gave his life to Christ
for the sake of the kingdom of heaven.
His fervour in prayer filled him with joy,
his wisdom and eloquence strengthened your faithful people,
his ministry to those in need inspires us always.
Filled with his good zeal we join the angels and all the saints
to praise your glory as with one voice we cry:

Communion Antiphon (Mt 19:27-29)

I solemnly tell you, those who have left everything and
followed me will be repaid a hundredfold and will gain eternal
life.

Prayer After Communion

May the communion we have received, O Lord, unite us in
brotherly love and in zeal to proclaim your saving truth. This
prayer we make through Christ, Our Lord.

GŴYL DDEWI - DARLLENIADAU

Y Darlleniad Cyntaf (First Reading):

Daw'r darlleniad cyntaf o Lyfr y Proffwyd Eseia [Isaiah 61:1-3, 10-11]

Y mae ysbryd yr Arglwydd DDUW arnaf,
oherwydd i'r ARGLWYDD fy eneinio
i ddwyn newydd da i'r darostyngedig,
a chysuro'r toredig o galon;
i gyhoeddi rhyddid i'r caethion,
a rhoi gollyngdod i'r carcharorion;
i gyhoeddi blwyddyn ffafr yr ARGLWYDD
a dydd dial ein Duw ni;
i ddiddanu pawb sy'n galaru,
a gofalu am alarwyr Seion;
a rhoi iddynt goron yn lle lludw,
olew llawenydd yn lle galar,
mantell ysblennydd yn lle digalondid.
Gelwir hwy yn brennau teg
wedi eu plannu gan yr ARGLWYDD i'w ogoniant.

Llawenychaf yn fawr yn yr ARGLWYDD,
gorfoleddaf yn fy Nuw;
canys gwisgodd amdanaf wisgoedd iachawdwriaeth,
taenodd fantell cyfiawnder drosodf,
fel y bydd priodfab yn gwisgo'i goron,
a phriodferch yn ei haddurno'i hun â'i thlysau.

Fel y gwna'r ddaear i'r blagur dyfu,
a'r ardd i'r hadau egino,
felly y gwna'r Arglwydd Dduw i gyfiawnder a moliant
darddu gerbron yr holl genhedloedd.

Gogoniant i Dduw am ei Air. **Diolch i ti, O Dduw.**

First Reading (Is 61:1-3. 10-11)

A reading from the prophet Isaiah.

The spirit of the Lord has been given to me,
for the Lord has anointed me.

He has sent me to bring good news to the poor,
to bind up hearts that are broken;
to proclaim liberty to captives,
freedom to those in prison;
to proclaim a year of favour from the Lord,
a day of vengeance from our God,
to comfort all those who mourn
and to give them for ashes a garland;
for mourning robe, the oil of gladness,
for despondency, praise.

I exult for joy in the Lord,
my soul rejoices in my God,
for he has clothed me in the garments of salvation,
he has wrapped me in the cloak of integrity,
like a bridegroom wearing his wreath,
like a bride adorned in her jewels.

For as the earth makes fresh things grow,
as a garden makes seeds spring up,
so will the Lord make both integrity and praise
spring up in the sight of the nations.

The word of the Lord.
Thanks be to God.

Salm (Psalm): 89

Ateb (Response):

Canaf am dy gariad, O Arglwydd, dros y cenedlaethau.

Canaf byth am dy gariad, O Arglwydd,
ac â'm genau mynegaf dy ffyddlondeb dros y cenedlaethau;
oherwydd y mae dy gariad wedi ei sefydlu dros byth,
a'th ffyddlondeb mor sicr â'r nefoedd.

Gwneuthum gyfamod â'm hetholedig,
a thyngu wrth Ddafydd fy ngwas,
“Gwnaf dy had yn sefydlog am byth,
a sicrhau dy orsedd dros y cenedlaethau.”

Cefais Ddafydd, fy ngwas,
a'i eneinio â'm holew sanctaidd;
bydd fy llaw yn gadarn gydag ef,
a'm braich yn ei gryfhau.

Bydd fy ffyddlondeb a'm cariad gydag ef,
ac yn fy enw i y dyrchefir ei gorn.
Bydd yntau'n galw arnaf, “Fy nhad wyt ti,
fy Nuw a chraig fy iachawdwriaeth.”

Psalm 89: 2-5, 21-22, 25, 27

I will sing for ever of your love, O Lord!

I will sing for ever of your love, O Lord;
through all ages my mouth will proclaim your truth.
Of this I am sure, that your love lasts for ever,
that your truth is firmly established as the heavens.

With my chosen one I have made a covenant;
I have sworn to David my servant:
“I will establish your dynasty for ever
and set up your throne through all ages.”

I have found David my servant
and with my holy oil anointed him.
My hand shall always be with him
and my arm shall make him strong.

My truth and my love shall be with him;
by my name his might shall be exalted.
He will say to me: 'You are my father,
my God, the rock who saves me.'

Yr Ail Ddarlleniad (Second Reading)

Daw'r ail ddarlleniad o lythyr yr Apostol Paul at y Philipiaid

[Phil 3:8-14]

Yr wyf yn dal i gyfrif pob peth yn golled, ar bwys rhagoriaeth y profiad o adnabod Crist Iesu fy Arglwydd, yr un y collais bob peth er ei fwyn. Yr wyf yn cyfrif y cwbl yn ysbwriel, er mwyn imi ennill Crist a'm cael ynddo ef, heb ddim cyfiawnder o'm heiddo fy hun yn seiliedig ar y Gyfraith, ond hwnnw sydd trwy ffydd yng Nghrist, y cyfiawnder sydd o Dduw ar sail ffydd. Fy nod yw ei adnabod ef, a grym ei atgyfodiad, a chymdeithas ei ddioddefiadau, wrth gael fy nghydfurfio â'i farwolaeth ef, er mwyn i mi, os yw'n bosibl, gyrraedd yr atgyfodiad oddi wrth y meirw.

Nid fy mod eisoes wedi cael hyn, neu fy mod eisoes yn berffaith, ond yr wyf yn prysuro ymlaen, er mwyn meddiannu'r peth hwnnw y cefais innau er ei fwyn fy meddiannu gan Grist Iesu. Frodyr, nid wyf yn ystyried fy mod wedi ei feddiannu; ond un peth, gan anghofio'r hyn sydd o'r tu cefn ac ymestyn yn daer at yr hyn sydd o'r tu blaen, yr wyf yn cyflymu at y nod, i ennill y wobwr y mae Duw yn fy ngalw i fyny ati yng Nghrist Iesu.

Gogoniant i Dduw am ei Air.

Diolch i ti, O Dduw.

Second Reading

Philippians 3:8-14

*I am racing for the finish, for the prize
to which God calls us upwards to receive in Christ Jesus.*

A reading from the letter of St Paul to the Philippians.

I believe nothing can happen that will outweigh the supreme advantage of knowing Christ Jesus my Lord. For him I have accepted the loss of everything, and I look on everything as so much rubbish if only I can have Christ and be given a place in him. I am no longer trying for perfection by my own efforts, the perfection that comes from the Law, but I want only the perfection that comes through faith in Christ, and is from God and based on faith. All I want is to know Christ and the power of his resurrection and to share his sufferings by reproducing the pattern of his death. That is the way I can hope to take my place in the resurrection of the dead.

Not that I have become perfect yet: I have not yet won, but I am still running, trying to capture the prize for which Christ Jesus captured me. I can assure you my brothers, I am far from thinking that I have already won. All I can say is that I forget the past and I strain ahead for what is still to come; I am racing for the finish, for the prize to which God calls us upwards to receive in Christ Jesus.

The word of the Lord.

Thanks be to God.

Cyfarchiad i'r Efengyl (Gospel Acclamation)

(Alelwia, alelwia!)

Os arhoswch chwi yn fy ngair i,
yr ydych mewn gwirionedd yn ddisgyblion i mi,
a chewch wybod y gwirionedd,
a bydd y gwirionedd yn eich rhyddhau.
(Alelwia!)

Yr Efengyl (The Gospel) [Matthew 5:13-16]

Darlleniad o'r Efengyl Sanctaidd yn ôl Mathew
Gogoniant i ti, O Arglwydd.

“Chwi yw halen y ddaear; ond os cyll yr halen ei flas, â pha beth yr helltir ef? Nid yw'n dda i ddim bellach ond i'w luchio allan a'i sathru dan draed gan ddynion. Chwi yw goleuni'r byd. Ni ellir cuddio dinas a osodir ar fryn. Ac nid yw pobl yn cynnau kannwyll ac yn ei doddi dan lestr, ond yn hytrach ar ganhwyllbren, a bydd yn rhoi golau i bawb sydd yn y tŷ. Felly boed i'ch goleuni chwithau lewyrchu gerbron dynion, nes iddynt weld eich gweithredoedd da chwi a gogoneddu eich Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd.”

Gogoniant i Dduw am ei Air.
Moliant i ti, O Grist.

Gospel Acclamation (note St David often falls in Lent)

(Alleluia! Alleluia!)

If you make my word your home,
you will indeed be my disciples ,
and you will learn the truth,
and the truth will set you free, says the Lord.

(Alleluia!)

Gospel

Matthew 5:13-16

A reading from the Holy Gospel according to Matthew.

Glory to you, O Lord.

Jesus said to his disciples, ‘You are the salt of the earth. But if salt becomes tasteless, what can make it salty again? It is good for nothing, and can only be thrown out to be trampled underfoot by men.

‘You are the light of the world. A city built on a hill-top cannot be hidden. No one lights a lamp to put it under a tub; they put it on the lamp-stand where it shines for everyone in the house. In the same way your light must shine in the sight of men, so that, seeing your good works, they may give the praise to your Father in heaven.’

The Gospel of the Lord. Praise to you, Lord Jesus Christ.

Scripture readings from the Jerusalem Bible are published and copyright © 1966, 1967 and 1968 by Darton, Longman & Todd, Ltd and Doubleday, a division of Random House, Inc, and used by permission of the publishers. Text of the Psalms: Copyright © 1963, The Grail (England). All rights reserved.

Neu... Yr Efengyl (The Gospel) [Luke 2:41-51]

Darlleniad o'r Efengyl Sanctaidd yn ôl Luc
Gogoniant i ti, O Arglwydd.

Byddai rhieni Iesu yn arfer mynd i Jerwsalem i ddathlu Gŵyl y Pasg bob blwyddyn, a phan oedd Iesu yn ddeuddeg oed aethon nhw yno i'r Wyl fel arfer. Pan oedd yr Wyl drosodd dyma ei rieni yn troi am adre, heb sylweddoli fod Iesu wedi aros yn Jerwsalem. Roedden nhw wedi teithio drwy'r dydd gan gymryd yn ganiataol ei fod gyda'i ffrindiau yn rhywle. Dyma nhw'n mynd ati i edrych amdano ymhlith eu ffrindiau a'u perthnasau, ond methu dod o hyd iddo. Felly dyma nhw'n mynd yn ôl i Jerwsalem i edrych amdano.

Roedd hi'r trydydd diwrnod cyn iddyn nhw ddod o hyd iddo! Roedd wedi bod yn y deml, yn eistedd gyda'r athrawon ac yn gwranddo arnyn nhw ac yn gofyn cwestiynau. Roedd pawb welodd e yn rhyfeddu gymaint roedd yn ei ddeall. Cafodd ei rieni y fath sioc pan ddaethon nhw o hyd iddo, a dyma'i fam yn gofyn iddo, "Machgen i, pam rwyt ti wedi gwneud hyn i ni? Mae dy dad a fi wedi bod yn poeni'n ofnadwy ac yn chwilio ym mhobman amdanat ti."

Gofynnodd Iesu iddyn nhw, "Pam roedd rhaid i chi chwilio? Wnaethoch chi ddim meddwl y byddwn i'n siŵr o fod yn nhŷ fy Nhad?" Ond doedd ei rieni ddim wir yn deall beth roedd yn ei olygu.

Felly aeth Iesu yn ôl i Nasareth gyda nhw a bu'n ufudd iddyn nhw. Roedd Mair yn cofio pob manylyn o beth ddigwyddodd, a beth gafodd ei ddweud.

Gogoniant i Dduw am ei Air.
Moliant i ti, O Grist.

Alternative Gospel

Gospel

Luke 2:41-51

A reading from the Holy Gospel according to Luke.

Glory to you, O Lord.

Every year the parents of Jesus used to go to Jerusalem for the feast of the Passover. When he was twelve years old, they went up for the feast as usual. When they were on their way home after the feast, the boy Jesus stayed behind in Jerusalem without his parents knowing it. They assumed he was with the caravan, and it was only after a day's journey that they went to look for him among their relations and acquaintances. When they failed to find him they went back to Jerusalem looking for him everywhere.

Three days later, they found him in the Temple, sitting among the doctors, listening to them, and asking them questions; and all those who heard him were astounded at his intelligence and his replies. They were overcome when they saw him, and his mother said to him, 'My child, why have, you done this to us? See how worried your father and I have been, looking for you.'

'Why were you looking for me?' he replied 'Did you not know that I must be busy with my Father's affairs?' But they did not understand what he meant.

He then went down with them and came to Nazareth and lived under their authority. His mother stored up all these things in her heart.

The Gospel of the Lord. Praise to you, Lord Jesus Christ.